

# RHODDION GWERTHFAWR

Mae adnoddau'r Nadolig eleni yn archwilio gwaith Cymorth Cristnogol yn ymladd malaria yn Nigeria, yn enwedig ymhlith merched a phlant ieuanc. Maent yn adrodd stori pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan falaria ac yn dangos sut all rhoi rhwyd mosgito fel rhodd werthfawr wneud y gwahaniaeth rhwng byw neu farw. Defnyddiwch ein gweithgarwch isod gyda phlant eich eglwys ac yna defnyddiwch ein hadnoddau eraill fel rhan o ddatliadau'r Nadolig yn eich eglwys.

## Rhwydi, rhwydi, rhwydi

Dewch a rhwydi, neu lun o rwydi, i mewn i'w dangos i'r grŵp a rhannwch efo hwy pa fath o ddefnydd gwahanol y gellid ei wneud efo rhwyd, fel dal pysgod, diogelu cynydau, sgorio neu arbed gôl, eu rhoi dros eich gwallt, fel rhwydi diogelwch, rhwydi criced ac yn y blaen. Allent feddwl am rai eraill? Ydi'r rhwydi hyn yn cael eu defnyddio i gadw pethau i mewn neu allan?

Os nad oes neb wedi sôn am y peth, eglurwch fod pobl hefyd yn cysgu o dan rwydi er mwyn diogelu eu hunain rhag cael eu pigo gan bryfetach. Gofynnwch i'r plant a ydynt erioed wedi cael eu pigo? Sut deimlad oedd o? Eglurwch nad yw pigiad pryfetach yng Nghymru byth yn rhywbeth difrifol iawn (os nad oes gennych chi alergedd) ond mewn rhai rhannau o'r byd gallai pigiad roi salwch difrifol ichi, fel malaria. Eglurwch ei bod yn hynod bwysig bod pobl - a phlant ieuanc yn arbennig - yn y rhannau hynny o'r byd yn gorfod cysgu o dan rwyd er mwyn diogelu eu hunain, ond nad oes gan bawb rwyd mosgito i gysgu oddi tani. Gofynnwch i'r plant a yw rhwyd mostigo ar eu rhestr anrhegion y Nadolig hwn? Eglurwch fel yr ydym yn mynd i glywed am rai pobl sydd wedi derbyn rhwyd mosgito fel anrheg.

## Anrhegion Nadolig

Darllenwch Mathew 1:18-2:12 mewn ferswin sy'n addas i blant. Siaradwch efo'r plant am anrhegion Nadolig – gallent ddweud wrthynt beth yw eu gobeithion am roddion eleni. Beth yw eu barn am yr anrhegion o roddwyd i lesu gan y doethion a'r bugeiliaid? (Eglurwch efo mwy o fanylder beth oedd ystyr y rhoddion, gan gyfeirio at sgets y **Tri Gŵr Hynod Ddoeth** am fwy o wybodaeth). Petai'r plant yn ymweld a lesu be fyddai eu rhoddion hwy? Pam?

## Adnodd Adfent

Defnyddiwch ein **Hantur Adfent** gyda'r plant wrth i'r Nadolig agosáu. Gellid defnyddio'r adnodd hwn mewn grwpiau neu yn y cartref. Mae'n dweud stori Christiana, gwraig ieuanc o Nigeria, a'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae rhwyd mosgito wedi ei wneud iddi hi a'i theulu. Defnyddiwch stori Christiana i egluro pwysigrwydd meddu rhwyd mosgito ac i gyflwyno gweithgarwch arall y byddwch yn ei wneud fel grŵp.

## Chwarae gemau

- Defnyddiwch ein templed isod er mwyn copïo a thorri allan ddarluniau o fogsitos. Rhowch farc coch ar rai o'r lluniau. Cuddiwch y mosgitos o amgylch yr ystafell. Rhannwch y plant yn dimau a rhowch rwyd i bob tîm. Mae gan y timau dri munud i lenwi eu rhwydi efo hynny o fogsitos ag y gallent. Wedyn, cyfrwch faint o'r mosgitos sydd yn cario malaria - y rhai efo marc coch. Bydd y tîm sydd efo'r nifer mwyaf o fogsitos yn ennill.
- Chwaraewch gemau rhwyd fel pêl fased neu bêl rwyd (os oes gennych chi gwert) neu gêm syml o ddal yn defnyddio peli a rhwydi.



## Gweddïau mosgito

Torrwch dempled o foscito i bob plentyn a gofynnwch iddynt ysgrifennu a darlunio gweddi arnynt. Gweddïwch dros Christiana a theuluoedd ieuanc yn Nigeria. Gweddïwch y bydd mwy o deuluoedd yn derbyn rhwydi mosgito ac y byddant yn dysgu am falaria. Rhowch weddïau pawb mewn rhwyd er mwyn dangos bod Duw wedi casglu'r gweddïau i gyd at ei gilydd a'u derbyn.

## Crefft

Gwnewch fygydau pryfetach, magnet pryfetach, bathodyn pryfetach, gwnewch bryfetach o gerrig, neu gwnewch ryw grefft arall ar y thema o bryfetach sydd ar gael ar wefannau crefft. Neu, llungopiwch y templed mosgito a'i addurno efo gliter, papur sidan ac yn y blaen ac yna'u gosod ar linynt cotwm. Gall y plant hongian y rhain yn eu stafell wely i'w hatgoffa nad oes dim rhaid iddynt ofni'r mosgito yn y wlad hon.

## Codi arian ar gyfer rhwydi

Gosodwch sialens i'ch grŵp i godi arian tuag at waith Cymorth Cristnogol yn Nigeria ac o amgylch y byd. Siaradwch efo'r plant ynghylch beth y gallent hwy ei wneud i helpu. Gallech wneud un neu fwy o'r canlynol:

- Cynnig gwasanaeth lapio anrhegion i'ch cynulleidfa eglwysig, am rodd.
- Cynnal cwsg nodedig o dan rwydi mosgito neu bebyll. Byddai aros dan do yn well yr adeg hon o'r flwyddyn, ond gallech dal ddefnyddio pebyll go iawn neu jest gosod planced dros gadeiriau er mwyn gwneud den. Gellid noddi'r plant am bob awr y byddant yn aros o dan y babel neu'r rhwyd, unai efo'i gilydd fel grŵp neu yn eu cartrefi fel unigolion. Os byddant efo'i gilydd gwnewch y noson yn hwyliog trwy chwarae gemau ac ati.
- Llenwi bagiau rhwyd efo melysion a'u gwerthu yn yr eglwys. Torrwch ddarn o'r rhwyd a phapur sidan mewn cylchoedd mawr, gosodwch y papur sidan oddi fewn i'r rhwyd a llenwch nhw efo

melysion cyn cau'r rhwyd efo rhuban. Neu fe allech brynu'r bagiau rhwyd oddi ar wefannau crefft.

- Mynd i ganu carolau.
- Gofyn i'r plant yn y grŵp greu eu syniadau eu hunain ynghylch codi arian yn yr eglwys tuag at waith Cymorth Cristnogol.

## Rhannwch y stori

Mae ein drama **Tri Gŵr Hynod Ddoeth** a **Dathliad Carolau** yn ffordd da o egluro egluro'r problemau a wynebhir gan rieni a phlant ieuanc yn Nigeria ac maent yn ddelfrydol i'w defnyddio yn eich eglwys. Gallai'r plant chwarae'r rhannau yn y ddrama neu arwain y Dathliad Carolau fel rhan o'ch gwasanaethau Nadolig.



Dyma Christiana Odey yn mwynhau moment werthfawr efo'i mab bach, ar ôl gwella o'r salwch difrifol malaria. Mae Cymorth Cristnogol yn gweithio efo partneriaid yn Nigeria i sicrhau gofal ac addysg i deuluoedd sy'n cael eu bygwth gan falaria.

Templed mosgito ar gyfer y gweithgarwch

